

Pris: 50c

# Papur Pawb

Tachwedd 2018 Rhif 443



Criw sgets CFFI – Catrin, Dewi, Geraint, Ynyr, Richard John, Sara, Iestyn ac Alwenna

tud 3  
**Pobl a Phethe**

tud 4/5  
**Ysgol Tal-y-bont**

tud 10  
**Helo 'Na!**

tud 11  
**Y Gair Olaf**

## Ennill gwobr Genedlaethol Ffotograffiaeth

Llongyfarchiadau i Beti Wyn Davies, Taliesin, ar ennill y ddwy wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth genedlaethol NAFAS, un ar y thema 'adlewyrchiad' a'r llall 'digon da i'w fwyta'. Roedd 325 wedi cystadlu a dyma'r tro cyntaf erioed i aelod o Gymdeithas Flodau Aberystwyth, a'r unig un o Gymru, ennill dwy brif wobwr. Cyflwynwyd y gwobrau yn Nhŷ Osbourne, pencadlys NAFAS, yn Llundain a llongyfarchodd Donald Morgan, Blodau'r Bedol i Beti Wyn yng nghyfarfod misol Cymdeithas Flodau Aberystwyth yn Llanfarian ym mis Medi.



Llun: Arnd Parry Jones

## Llwyddiant Eisteddfod CFFI



Parti Unsain – adroddiad llawn ar dudalen 9

Llun: Tim Jones



## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:** Gwyn Jenkins (01970) 832560  
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com  
**Tynnu lluniau:** Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**  
**Tal-y-bont:** Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592  
**Maes-y-deri:** Karren Roberts 07800 806578  
**Parsel Henlllys:**  
**Bont-goch:** Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566  
**Tre Taliesin:** Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230  
**Tre'r-ddôl:** Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260  
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028  
**Eglwysfach/Ffwrnais:** Non Griffiths (01654) 703635  
**Rhwydweithiau cymdeithasol:** Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**  
**Cadeirydd:** Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697  
**Is-gadeirydd:**  
**Ysgrifennydd:** Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344  
**Trysorydd:** Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093  
**Tanysgrifiadau:** Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448  
**Hysbysebion:** Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076  
**Plygu'r Papur:** Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins  
**Dosbarthwyr:** Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...

**www.papurpawb.cymru**

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAGE



Adwaith y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths i'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ei ymgynghoriad...

### Cymdeithas Sioe Tal-y-Bont

#### Gyrfa Chwist Dofednod

gyda Raffi Fawr  
a gwobrau amrywiol  
Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Nos Fercher 19 Rhagfyr  
8 o'r gloch  
Croeso cynnes i bawb

### Neuadd Goffa Tal-y-bont Ffair Nadolig

Sadwrn 24 Tachwedd  
2.00 o'r gloch

Stondinau Amrywiol  
£2.00 (i gynnwys paned)

Plant ysgol am ddim

### Aduniad Ysgol Gyfun Penweddig

1976-1981/83

Nos sadwrn 4ydd o Fai 2019  
am 7pm  
Llety Parc, Aberystwyth.

Rhif cyswllt: Nigel Roberts  
07964846097  
Ruth Jen:  
ruthjen@btinternet.com



### Eisteddfod 2020 Tregaron

Cyfarfod i Sefydlu Apêl Leol  
**Ysgubor y Coed,  
Llangynfelyn a  
Cheulanmaesmawr**

Nos Fercher Tachwedd 21 2018  
am 7 pm yn Llanfach, Taliesin.

Croeso cynnes i bawb.

## Dyddiadur

### TACHWEDD

- 11 Bethel 10** Richard Lewis  
**Neuadd Goffa Tal-y-bont**  
10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio  
**Rehoboth 5** Bugail  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**13 Cymdeithas y Chwiorydd**  
**Rehoboth 'Canu, Ceir a Cob'**  
(Ifor Lloyd); 'Casgliad o  
esgidiau bach' (Myfanwy Lloyd)  
**Tenis Bwrdd 7** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**14 Cletwr 2.15** Sesiwn Stori  
**15 Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**18 Bethel 10** Gwasanaeth Teulu  
**Nasareth 10** Rhidian Griffiths  
**Rehoboth 11.15** Bugail  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30**  
Hwyrrol Weddi  
**19 Merched y Wawr Tal-y-bont**  
**a'r Cylch 'Prynu a Gwerthu Tai'**  
(Iestyn Leyshon)  
**21 Dawnsio Albanaidd 7.30**  
Ystafell Haearn, Eglwysfach  
**Cyfarfod i Sefydlu Apêl Leol**  
**Eisteddfod 2020 Tregaron**  
7.00 Llanfach, Taliesin  
**22 Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**Bingo 7.30** Wildfowler  
**23 Sesiwn Nos Wener 'Hwyllo'r**  
**Chwedlau'** (Mair Tomos Ifans a  
Sioned Webb) 8 Llew Gwyn  
**Cwis 8** Wildfowler  
**25 Bethel 10** Geraint Evans  
**Rehoboth 5** Elwyn Pryse  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**27 Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**Cymdeithas Treftadaeth**  
**Llangynfelyn 'Y Traddodiad**  
**Plygain'** (Rhiannon Ifans a  
Trefor Puw) 7.30 Llanfach  
**Tenis Bwrdd 7** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**30 Cwis 8** Wildfowler

### RHAGFYR

- 2 Bethel 11.15** Uno yn Nasareth  
**Nasareth 11.15** Bugail  
**Rehoboth 10** Cyril Molyneux  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30**  
Cymun Bendigaid  
**3 Merched y Wawr Tal-y-bont**  
**a'r Cylch 'Dathlu'r Nadolig'**  
**4 Sefydliad y Merched Taliesin**  
**'Addurno Cacen Nadolig' (Liz)**  
**6 Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**Bingo 7.30** Wildfowler  
**9 Bethel 10** Terry Edwards  
**Rehoboth 5** Bugail  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**Bethel Gwasanaeth Nadolig**  
Cymunedol  
**11 Cymdeithas y Chwiorydd**  
**Rehoboth 'Dathlu'r Nadolig'**  
(Ann ac Alan Wynne Jones)  
**Tenis Bwrdd 7** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**12 Cletwr 2.15** Sesiwn Stori  
**13 Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn,  
Eglwysfach  
**14 Clwb Llyfrau 2.30** Ystafell  
Haearn, Eglwysfach  
**16 Bethel 10** Gwasanaeth Teulu  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30**  
**Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30**  
Hwyrrol Weddi

### Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Tro a Chlonc'  
11-11.45  
Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu'  
3-5  
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol'  
9.30-10.30

### Ffrindiau Cartref Tregerddan

Cyfarfod Blynnyddol  
yn y Cartref  
Nos Fercher 28 Tachwedd  
7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Os am gynnwys manylion  
am weithgareddau eich  
mudiad neu'ch sefydliad  
yn nyddiadur y mis,  
dylech anfon y manylion  
llawn at Carys Briddon,  
carysbriddon@btinternet.  
com 01970 832478 o leiaf  
ddeng niwrnod cyn y  
rhifyn nesaf o Papur  
Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn  
oedd Mair, Beryl a Lisa,  
gyda Ceri yn dylunio.  
Diolch iddynt. Y golygyddion  
ar gyfer y rhifyn nesaf fydd  
Delyth a Bledwyn  
(huws.henllan@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 7 Rhagfyr a  
bydd y papur ar werth ar  
14 Rhagfyr.

## Yn yr ysbyty

Pob dymuniad da i Gwynndaf Evans, Maes-y-deri, a John Taylor, Stryd Adam, Tal-y-bont, a fu yn yr ysbyty am gyfnod yn ddiweddar.

## Cadeirydd

Llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, ar gael ei benodi'n gadeirydd Pwyllgor Llên Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

## Cylch Cinio

Y cyn llawfeddyg John Edwards, un â chysylltiadau cryf ag ardal *Papur Pawb*, oedd gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth ym mis Hydref. Mae'n gymeriad lliwgar, galluog a charismataidd a chafwyd noson ddiffr iawn yn ei gwmni. Soniodd am ei fagwraeth ar aelwyd Gymraeg yn Llundain a phwysigrwydd Capel Jewin i'w deulu. Mae ei wreiddiau yn nwfyn yng ngogledd Ceredigion ac mae'n huanu o un o deuluoedd hetwyr yr ardal. Bu John yn feddyg yn Ysbyty Charing Cross yn Llundain ac yng Nghastell Nedd cyn troi ei olygon i ardal ei wreiddiau. Mae'n ffigwr adnabyddus yn yr ardal hon am ei waith gwerthfawr yn Ysbyty Bronglais dros ddegawdau fel Llawfeddyg Cyffredinol.

## Cydymdeimlad

Rydyn ni'n cydymdeimlo'n fawr â Karen Stacey a'r teulu, Frondeg, Taliesin, ar ôl colli mam Karen yn ddiweddar. Roedd ei mam yn byw ym Manceinion.

## Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd Hapus a phob dymuniad da i Suzanne Brooks, Llety Lwydin, Tre'r-ddôl, a ddathlodd ben-blwydd arbennig 7 Tachwedd.

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr



## Cynnau Goleuadau Nadolig, Carolau a Lluniaeth Ysgafn

Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018  
4:00yp

# Pobl a Phethe



## Cylch Meithrin Tal-y-bont


Bu dathlu mawr yn Neuadd Goffa Tal-y-bont penwythnos cyntaf hanner tymor, gyda gwarchod, dewiniaid, ystumod a sgerbydau'n ymgynnull i nodi Calan Gaeaf. Mae parti Calan Gaeaf, i holl blant yr ardal, yn achlysur cyfarwydd erbyn hyn ac yn ffordd dda iawn o godi arian i'r Cylch wrth gael llawer o hwyl. Diolchwn yn fawr i bawb fu wrthi gyda'r trefniadau – a'r drychiolaethau fu'n mynychu. Gyda'r Cylch wedi ail-ymgynnull ar ôl y gwyliau, mae llawer o edrych ymlaen at Ddiwrnod Plant mewn Angen pan fydd cyfle i bawb aros yn eu pyjamas drwy'r bore! Ac wrth gwrs mae'r Cyngerdd Nadolig yn agosáu yn gyflymach nag ydyn ni'n sylweddoli – bydd rhagor o fanylion i ddilyn yn y rhifyn nesaf.



Dyma Denley Jenkins, y cyn gadeirydd, yn trosglwyddo'r gadwyn i Rowland

## Cadeirydd Newydd

Yng nghyfarfod mis Medi o bwyllgor Ymgynghorol Ceredigion o'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Aberaeron, penodwyd Rowland Davies, Dolclettwr yn Gadeirydd newydd y Sir. Pob dymuniad da iddo fo.



## Hen Llythyr

Fe ddaeth Richard Huws, Bontgoch o hyd i'r llythyr uchod yn y *Cambrian News*, 2 Mai 1924. Yng ngoleuni'r gwelliannau diweddar a wnaethpwyd i'r ffordd rhwng Bontgoch a Tal-y-bont, mae'n siŵr y byddai Richard Williams, Pantgwyn, Bontgoch yn cymeradwyo'r gwaith.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Richard Huws a'r teulu, Pantgwyn Bontgoch ar golli modryb ym Mhenybont ar Ogwr yn ddiweddar ac a Aldwyth Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont a gollodd chwaer o Lanarthne, Sir Gaerfyrddin.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Abner Jones, Pantycyfyng Uchaf, Bwlchllan ar golli ei briod Tilly ym mis Hydref. Bu'r ddau yn byw yn Nhŷ Capel, Nasareth am rai blyneddau yn ystod y saith a'r wythdegau.

Cydymdeimlwn â Maria Southgate, Dan y Dderwen, Tal-y-bont ac a Lisa a Barry a'u teuluoedd ar golli mam, mamgu a hen-famgu hoffus sef Brenda Jones o Lanbadarn Fawr.

## Pen blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont; Eurllys Jones, Eurfan, Tal-y-bont a Delyth P Huws, Henllan, Tal-y-bont ar ddathlu pen blwyddi arbennig.

## Dathlu Priodas Berl

Llongyfarchiadau i Arwel a Julie Griffiths, Maes y Deri, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas berl yn ddiweddar.

## Tarmac Bontgoch

Yn dilyn creu nifer o lefydd pasio newydd ar y ffordd o'r pentref i Dal-y-bont, mae'r ffordd drwy'r pentref hefyd wedi cael tarmac newydd. Ymweliad brenhinol ar y ffordd efallai!

# LRJ

## Plymio cyffredinol a chynhaliaeth

Llion Jenkins  
**07958 701861**  
llionjenx94@hotmail.co.uk





# Ysgol Tal-y-bont



Castell Henlllys



Yn y llun mae Nigel yn cyflwyno tystysgrif sy'n nodi codi toiled ym mhentref Lura yn Malawi, a adeiladwyd gan Toilet Twinning gydag arian gan gwsmeriaid hael Cletwr. Roedd hyn yn fodd i ni gofio am ein cysylltiadau ni gydag Ysgol Nkope Hill ym Malawi ac i gofio am Agness, Davie a Barbra a fuodd yn ymweld â ni yma yn Ysgol Tal-y-bont.



Ysgol Iach

## Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



**01970 832772 / 07846 255881**  
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



Cyngor Ysgol



**NICEIC**  
APPROVED  
CONTRACTOR

## Alun Davies

Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** alun.davies142@btinternet.com



Criw Cymraeg



# Ysgol Tal-y-bont

## Ysgol Ryngwladol

Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'n cefnogi ni yng Nghapel Bethel ar gyfer ein gwasanaeth diolchgarwch eleni a diolch arbennig i'r plant am eu gwaith. Pleser o'r mwyaf oedd croesawu Nigel Callaghan atom i sôn am ymgyrch Cletwr i gefnogi elusen Toilet Twinning. Mae cwsmeriaid Cletwr wedi bod yn casglu arian tuag at yr elusen ers rhai misoedd bellach ac wedi codi dros £1,000 i adeiladu toiledau mewn ysgolion yn Affrica. Codwyd dros £250 yn ystod y gwasanaeth eto at yr achos da yma. Gwych!

## Ysgol Iach

Diolch yn fawr i griw Ceredigion Actif a'n Llysgenhadon Efydd gweithgar am fore prysur o ddatblygu sgiliau chwaraeon i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd plant Blwyddyn 1 a 2 wrth eu boddau gyda'r gweithgareddau amrywiol.

## Gweithgareddau noddi

I godi arian i'r ysgol, cynhaliwyd 3 digwyddiad nodedig yn ystod mis Hydref. Aeth Blwyddyn 2-6 i nofio am hanner awr heb stop a Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 i feicio a sgwera ar yr iard am hanner awr hefyd. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi'r ysgol, mae'r Cyngor Ysgol wedi dechrau trafod sut i wario'r arian yn barod!

## Cyngor Ysgol

Cafwyd cyflwyniad hyfryd gan y Cyngor Ysgol mewn gwasanaeth yn ystod y mis. Pwrpas y cyflwyniad oedd esbonio eu gwaith hyd yn hyn i weddill yr ysgol. Maent yn griw hynod fywiog a gweithgar yn barod ac yn llawn syniadau da. Pob hwyl i chi am weddill y flwyddyn.

## Criw Cymraeg

Mae'r criw wedi eu dewis, mae'r crysau-t wedi cyrraedd ac mae'r gwaith wedi dechrau. Gweithgaredd gyntaf y flwyddyn fydd croesawu Ruth Jên i'r ysgol cyn hir ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at greu murlun newydd yn neuadd yr ysgol.

## Castell Henllys

Aeth plant Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 ar wibdaith i Bryngaer Celtaidd Castell Henllys. Ar ôl cyrraedd, daeth Arianrhod i siarad gyda ni. Fe wnaeth hi ddangos peiriant amser i ni, ond ddim un go iawn. Cerddom ni lan rhiw serth ac fe wnaethon ni weld moch! Wrth i ni gyrraedd y pentref, rhedodd dwy fenyw atom ni a dechrau ymosod arnon ni. Ond doedden nhw ddim yn ddrwg, roedden nhw'n ddiiniwed. Cawsom ni ddiwrnod arbennig yn gwneud gwahanol weithgareddau ac roedden ni wedi blino'n lân erbyn i ni gyrraedd nôl i Dal-y-bont. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu'r trip.  
*Hedydd, Hopcyn ac Osian*

## Staffio

Hoffwn groesawu Miss Gwenno Ellis atom i'r ysgol. Mae Miss Ellis yma i ddysgu Blwyddyn 5 a 6 ar gyfnod mamolaeth – gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yma efo ni.

**Gwasanaeth Scania**  
**ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 – 07721 786292

*Rhian*  
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553



## Ffwrnais Slawer Dydd

Llun o bentref Ffwrnais oddeutu 1880, a gyflwynwyd gan Ben Williams, Cledan, Ffwrnais. Trueni nad yw'r drafndiaeth mor dawl heddiw!

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd Rhiannon Evans, Tregaron, i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 9 Hydref. Yn ystod y sgwrs cafwyd yr hanes o sut aeth i sefydlu ei busnes ei hun yn Nhregaron, sef Gemwaith Rhiannon, yn 1971. Siop grefftau oedd yno i ddechrau yn gwerthu pob math o nwyddau Cymreig yn ogystal â'r gemwaith. Ond ar ôl gweld creiriau Celtaidd mewn arddangosfa yn Llundain, dechreuodd Rhiannon weithio gemwaith oedd yn adlewyrchu Cymru drwy gyflwyno chwedlau Celtaidd yn y darnau, ac mae chwedlau Celtaidd yn boblogaidd iawn yn America. Hi sydd yn creu pob cynllun ei hun ac mae pob darn o emwaith wedi ei orffen â llaw. Mae'r busnes wedi tyfu dros y blynyddoedd gan fod ei gemwaith yn boblogaidd iawn gan gwsmeriaid ar draws y byd, a daw ymwelwyr o bedwar ban byd i'r siop yn Nhregaron. Mwynhawyd te a sgon ar y diwedd wedi ei baratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

## Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr Nos Lun 15 Hydref. Wedi trafod ychydig ohebiaeth gan Falyri Jenkins, cyflwynodd Aileen Williams ein gwraig wadd am y noson sef Ann Mason Davies o Goginan. Blodau'r Beibl oedd ei thestun, a chafwyd araith ddiddorol ganddi yn sôn am ychydig o wahanol flodau yn y Beibl sydd yn tyfu allan yng ngwlad Israel megis y lili, ond nid yr un wen fel sydd gyda ni ond lili goch. Pabi, saffrwm, Hyssop a'r pren Almon, llawer ohonynt yn tyfu ar ochr creigiau a thir anial cyn i'r rhyfeloedd sydd yno ddifrodi'r wlad. Diolchwyd iddi gan Betty Jenkins.

## Canlyniadau Rali Aeaf

### Sefydliad y Merched Taliesin

Llongyfarchiadau i aelodau SyM Taliesin ar eu llwyddiant ysgubol yn Rali Aeaf y Sir yn Felinfach ar 20 Hydref: Cystadleuaeth Gydweithredol ar y thema Tangwyllt: 2il Taliesin

### COGINIO

Mins Peis: 1af Margaret Fogg, Canmoliaeth Uchel: Linda Hicks  
Bwyd Nadolig o Wlad dramor: Canmoliaeth Uchel: Liz Roberts  
Tarten Bakewell: 1af Liz Roberts

Tsytni Cranberry: Canmoliaeth Uchel: Val Walsh

Terrine: 1af Linda Hicks, 2il Liz Roberts, Canmoliaeth Uchel: Val Walsh  
Tri phwddin addas i'r Nadolig: 2il Liz Roberts

### Adran flodau

Gosodiad i'r Ffair Aeaf Adran SyM: 1af Christine Gilbert, 2il Beti Wyn  
Tân Gwyllt: 1af Beti Wyn, Canmoliaeth Uchel: Chris Glibert  
Gosodiad i Fwrdd Coffi: 1af Beti Wyn, 3ydd Chris Gilbert  
Gosodiad cwpan wy: 1af Chris Gilbert, Canmoliaeth Uchel: Beti Wyn a Jill South

### Crefft

Carden Nadolig: 2il Sylvia Cartwright  
Enillodd Taliesin Gwpan Jowlit am y nifer mwyaf o farciau yn y Rali  
Enillodd Liz Roberts Darian Abermeurig am y marciau uchaf yn yr Adran Goginio  
Enillodd Beti Wyn darian Marilyn Coleman am y nifer uchaf o farciau yn yr Adran Flodau  
Enillydd Gwobr Helen Davies oedd Christine Gilbert fydd yn cynrhychioli Sir Geredigion yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd ddiwedd mis Tachwedd  
Cyflwynwyd Cwpan Countess Lisburne am y nifer mwyaf o farciau yn y ddwy Rali yn 2018 i SyM Taliesin

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cyfarfod Mis Hydref

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Hydref y Cyngor ar Nos Lun, 29 Hydref 2018. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Enoc Jenkins, yn croesawi Gwyn Jenkins, Ceri Jones a Marc Richards i'r cyfarfod.

## Cynllun Cae Chwarae Newydd yn Nhal-y-bont

Ar ran Pwyllgor Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r Cylch cyflwynodd Gwyn, Ceri a Marc eu gweledigaeth ar gyfer cae chwarae newydd yn y pentref. Yn dilyn y cyflwyniad cytunodd y Cyngorwyr i gefnogi'r cynlluniau.

## Seremoni Goleuo y Nadolig

Cadarnhawyd mi fydd Seremoni Goleuo y Nadolig ger y Neuadd Goffa yn cychwyn am 4:00yp ar Nos Iau, 6 Rhagfyr 2018. Trafodwyd manylion y paratodau a chadarnhaodd y Clerc ei fod yn disgwyl i ddwy Goeden Nadolig cael eu codi o flaen y Neuadd Goffa yn barod ar gyfer y Seremoni Goleuo.

## Mynwent Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o faterion yn y fynwent. Un o'r eitemau a drafodwyd oedd y problemau gyda'r tap dŵr yn y fynwent. Gofynnwyd a oedd angen cael tap dŵr yn y fynwent o gwbl, ond yn dilyn trafodaeth cytunwyd yr oedd y tap yn fantais sylweddol i ymwelwyr i'r fynwent a phenderfynwyd trwsio'r tap. Diolchwyd i Cyng Enoc Jenkins a Cyng David Jones am eu gwaith caled yn clirio'r pentwr pridd a diolchwyd i Cyng Nia Richards am glirio'r sbwriel. Mi fydd Is-bwyllgor y Fynwent yn cwrrd eto yn ystod Mis Tachwedd i ystyried adolygu'r prisiau am gladdedigaethau yn y fynwent.

## Sedd Wag ar y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd swyddogion y Cyngor Sir wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn gofyn am etholiad. Felly cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu unwaith eto gyda'r Cyngor Sir er mwyn paratoi Hysbyseb Cyfethol ar gyfer llenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned.

## Materion Ffyrdd

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o faterion yn ymwneud â ffyrdd yn yr ardal. Cadarnhawyd bod y gwaith o osod wyneb newydd ar y ffordd i Bont-goch wedi gorffen.

## Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill ac eglurodd y Clerc fod problem wedi codi gydag un o'r eitemau ym Mharc Chwarae Bont-goch. Cytunwyd y byddai'r Cyng Enoc Jenkins a'r Cyng Emyr Davies yn edrych ar y broblem ynghyd â'r Clerc.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

01650 511 836 • 07831 402 002



## TACHWEDD

### Yn yr ardd flodau

Nid yw'n rhy hwyr i blannu cennin Pedr. Rŵan yw'r amser i blannu tiwlip. Gallwch blannu hyacinth mewn potyn ar gyfer y gwanwyn.

Plannwch goed rhosod.

Codwch y dahlia, gladioli a'r begonia.

Cuddiwch beth o'r celyn sydd ag aeron arnyn nhw, rhag i'r adar gael y cyfan cyn y Nadolig.

### Yn yr ardd lysiau

Codwch y pannas, ond bydd eu blas yn well ar ôl iddyn nhw gael barrug.

Gallwch rannu riwbob wedi iddyn nhw gysgu dros y gaeaf.

Dyma'r amser i wasgaru tail dros y gwely llysiau er mwyn iddo bydru'n dda dros y gaeaf.

### Cyffredinol

Gallwch blannu mafon rŵan er mwyn cael cnwd blasus yn yr haf.

Edrychwch ar y ffrwythau sydd wedi eu storio, rhag ofn bod rhai drwg yn eu canol.

Gallwch dorri ychydig ar y coed afalau a'r gellyg.

(drwy garedigrwydd Llais Ardudwy)

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT**  
Cyngerdd Nadolig a Ffair Crefftau  
£3 - oedolion  
Plant am ddim  
I gynnwys paned a mins pei

Raffl  
Cynnyrch Cartref  
Tombola

Neuadd Goffa Tal-y-bont  
03/12/2018  
6.30 yh  
Croeso cynnes i bawb

**K Hughes**

**Plymio a Gwresogi**  
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235

**Salon Leri**  
Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard

10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674

**TEIARS HUW LEWIS TYRES**

**Glanyrafon**  
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni  
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.  
**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLETH 01654 700000**  
**LLANBED 01570 422221**

**Rhodfa'r Parc**

**TEIARS HUW LEWIS TYRES**

**James Memorials**

Am  
**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

Gofynnwch am bampffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol  
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
**helen.iwan@btinternet.com**  
**01970 832760**



# Maes y Gwaed

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben gan mlynedd i'r mis hwn ac ar ddiwedd y llith hon byddwn yn cloriannu'r cyfan o safbwynt yr ardal hon.

Cyn hynny mae angen tynnu sylw at ychydig o lyfrau am y rhyfel sydd wedi ymddangos yn ddiweddar, ac yn arbennig at un a gyhoeddwyd gan Dr Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, sef *Pris Cydwylbod T H Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr* (Y Lolfa, £14.99). Dyma gyfrol ddadlennol, sydd wedi'i llunio'n gelfydd iawn gan Bleddyn, a adrodda am brofiadau'r bardd a'r ysgolhaig T H Parry-Williams a oedd yn heddychwyr yn ystod y Rhyfel Mawr.


Roedd nifer o heddychwyr yn wynebu erledigaeth yn y gweithle ac yn eu cymunedau wrth sefyll fel gwrthwynebwyr cydwylbodol yn ystod y rhyfel. Effeithiodd y rhyfel yn drwm ar Parry-Williams, a bu bron iddo gefnu ar yrfa fel darlithydd yn Aberystwyth oherwydd y rhagfarn yn erbyn ei ddaliadau. Yn ôl Bleddyn: "Edmygaf ei barodrwydd i herio'r drefn a sefyll ei dir yn wyneb pwysau cyhoeddus go llethol. Ond bu'n rhaid iddo dalu'r pris am lynu wrth ei egwyddorion, fel sawl heddychwyr arall".

Mae tensiynau'r cyfnod yn cael eu hamlygu yn y gyfrol, gan gynnwys yr anghytuno teuluol ac agweddau amrywiol cydweithwyr ac awdurdodau'r coleg. Mae'r ymchwil yn drylwyr a'r asesiadau o brofiadau Parry-Williams yn gytbwys a threiddgar. Dyma gyfrol ddarllenadwy iawn sy'n ychwanegu at ein gwybodaeth o gyfnod cythryblus yn hanes ein cenedl.

Cyfeirir at Parry-Williams mewn cyfrol arall a gyhoeddwyd yn ddiweddar sef *Gwrthwynebwyr Cydwylbodol yn y Rhyfel Mawr* gan Aled Eirug (Carreg Gwalch, £12). Yn ei gyflwyniad dywed: 'Mae'r llyfr hwn ... yn unigryw am ei fod yn rhoi'r darlun clir iaf eto o faint a sylwedd y gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr yng Nghymru, ac am ei fod, am y tro cyntaf, yn dadansoddi ac yn disgrifio'r gwrthwynebwyr cydwylbodol i'r rhyfel yng Nghymru.'

Mae cyfrol ddiweddaraf Alan *Llwyd Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Gomer, £29.99) yn cynnwys straeon personol am y cyfnod, gan bwysleisio'r elfen ddynol yn hytrach na'r elfen filaraidd. Mae'r awdur wedi ceisio edrych ar y rhyfel 'o ongl wahanol i'r arfer' gan 'ofyn y cwestiwn dirdynol: a ellid cyfiawnhau anfon miloedd o fechgyn Cymru i'w tranc.' Mae hon yn gyfrol swmpus ac yn llawn straeon diddorol am brofiadau unigolion a theuluoedd Cymreig yn ogystal â lluniau trawiadol a cherddi a gyfansoddwyd yn ystod y cyfnod.

Does dim cyfeiriadau uniongyrchol at ardal *Papur Pawb* yn yr un o'r cyfrolau hyn ond nid beirniadaeth mo hynny. Hyd y gwyddom, doedd dim un gwrthwynebydd cydwylbodol yn byw yn yr ardal ac er i rai lleol dderbyn eithriad rhag ymuno â'r lluoedd arfog gan y tribiwnlysoedd, roedd yr eithriad hwnnw ar sail rhesymau na wneleth â heddychiaeth. Mae adroddiadau papurau newydd y



cyfnod yn awgrymu bod llawer o gefnogaeth i'r rhyfel yn lleol. Pan orymdeithiodd bataliwn o gatrwd Sir Fynwy drwy'r ardal yn Ionawr 1915 nododd gohebydd lleol y *Cambrian News*: 'The march through Talybont will have a great influence upon the young men in inducing them to join the colours.' Er hynny, mae'n anodd darganfod beth oedd gwir safbwyntiau a theimladau unigolion yn ystod y cyfnod, gan fod adroddiadau'r wasg yn dueddol o fynegi safbwyntiau'r wladwriaeth. Cadw'n dawel oedd agwedd llawer.

Dyma'r olaf yn y gyfres achlysurol hon. Mae'n bwysig cofio beth ddigwyddodd ganrif yn ôl, gan gynnwys coffau'r rhai a laddwyd ar 'faes y gwaed': dros wyth miliwn ohonynt ar hyd a lled y byd, dros 30,000 o Gymru a 33 o dri phlwyf ardal *Papur Pawb*. Ond mae angen hefyd cofio am y rhai a ddychwelodd wedi'u clwyfo'n gorfforol neu feddyliol a'r teuluoedd a chwalwyd pan gollwyd gŵr neu fab neu frawd. Peidied neb chwaith anghofio am ffolineb arweinwyr gwleidyddol a brenhinol a fethodd a sicrhau heddwch gan yrru miliynau o bobl gyffredin i'w tranc. Doedd dim dewis medd rhai ond mae bob amser dewis.

GJ



## Cofeb Rhyfel Llangynfelyn

Pan gaewyd Eglwys Llangynfelyn rhai blynyddoedd yn ôl symudwyd cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf i Lanfach. Ar y gofeb mae enw pawb o Llangynfelyn aeth i ryfel dros eu gwlad.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio roedd cyflwr y gofeb yn dirywio. Felly, aethpwyd ati i'w hadnewyddu.

Cafodd yr holl waith adnewyddu ei ariannu gan Gymdeithas Cymrawd Frenhinol Cymru, gan yr ymddiriedolwr y Cynghorydd Paul Hinge a Duncan Sykes, Ysgrifennydd Cangen Aberystwyth.

Dymuna'r Cyngor Cymuned ddiolch iddynt am eu haelioni a'u cefnogaeth.

Dyma'r gofeb ar ei newydd wedd.

# Crefftwr Pren (a Mwy)

Mae perchnogion newydd (!) Rhoslan, Janet a Stephen Owen, yn byw yn ein plith ers tair blynedd a hanner. Hana teulu'r Owens o ardal Llangurig, Llanidloes, teulu o ffermwyr yn wreiddiol, ond daw Janet a Stephen o'r Drenewydd ac yno cafodd y ddau eu haddysg cyn gadael am golegau yng Nghaerdydd.

Treuliodd Stephen flynyddoedd ei arddegau yn teithio yn ôl ac ymlaen ar drenau arfordir y gorllewin ar yr hen 'Rover Tickets' a phryd hynny daeth i garu'r golygfeydd arfordirol bendigedig. Er iddynt dreulio'r rhan fwyaf o'u bywydau yn Lloegr eu bwriad o'r cychwyn oedd dychwelyd i Gymru. Yn ôl, mewn gwirionedd i'r olygfa o fôr y gorllewin oedd wedi ei gyfareddu pan yn llanc, golygfa odidog Rhoslan. Nid yw eu plant erioed wedi byw yng Nghymru ond gwyddent o'r cychwyn taw bwriad mam a dad oedd ymddeol i'r parthau hyn, a dyna a fu. Byw mewn tŷ dros dro ger Aberystwyth wrth chwilio am eu cartref delfrydol, yr hyn a gafwyd yn Rhoslan.

Wedi dyddiau coleg, ble bu Stephen yn dilyn cwrs celf cyffredinol a Janet yn dilyn cwrs fferylliaeth, cafodd Stephen wahoddiad i helpu cyfaill i adeiladu ysgubor dderw. Dyma ddechrau ei gariad at bren, a dyna fu, ac yw, ei yrfa ers y dyddiau hynny. Aeth i goleg yn Dorset i berffeithio'r grefft o drin pren ac yna i ysgol fonedd yn Surrey i ddysgu crefftau cyffredinol gan gynnwys ffotograffiaeth. Cofnodai pob dim a ddigwyddai yn yr ysgol hon yn ei lawlyfr wrth adeiladu gweithdy pwrpasol i'r adran grefftau. Gweithdy eco o bren wrth gwrs. Cymerodd hyn fisoedd lawer o ymdrech i'w gwblhau ond ychydig o oriau yn unig i losgi'n ulw o fewn wythnos o orffen y gwaith. Adeiladwyd un arall yn dilyn cynllun Stephen ond nid ei ddwylo ef wnaeth y gwaith y tro yma. Heddiw mae'n gampfa ac ystafell ffitrwydd i ddisgyblion yr ysgol.

Yn 2013 gadawodd y ddau Surrey am Gymru a phrynu Rhoslan yn 2015. Mae'r tai allan wedi eu haddasu fel bod Stephen yn gallu bwrw ymlaen â'i waith pren, ac yn cynnwys peiriant biomas, ac yn ogystal digon o dir i Janet dyfu ei hoff



*Comisiwn i eglwys yn Guildford yw'r ddarllenfa a'r burdd cymun. Mae gan Stephen resymau dros yr hyn oll mae'n gwneud, rhesymau sy'n deillio o ddaliadau crefyddol cryf Janet a Stephen. Nid metal mo'r hoelen! Chwarter tunnelli yw pwysau'r ford!*

blanhigion. Mae'n bosib i chi eu gweld nhw ill dau yn y Sioe eleni.

SSSI yw'r tir ac maen nhw'n edrych ymlaen at ei warchod a'i ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Sonia Stephen am garu'r tir yma yn y gorllewin, cymaint o gariad fel ei fod yn teimlo'r tir ac yn cael y fraint o fod yn berchen rhan ohono.

Yn ogystal â'r gwaith pren celfydd iawn yn y lluniau mae gan Stephen dau hen gar, un Minor 1000 y bu'n rhaid ei adeiladu o'r llawr lan ac MG a aeth â nhw i'r Eidal a'r Swistir ar eu gwyliau yn ystod yr haf.

Crefftwr pren tan gamp yw Stephen heb amheuaeth, ond gall droi ei law at nifer o wahanol grefftau. Ffrwyth ei ddwylo ef yw'r newidiadau i'r tŷ a'r siediau gwaith o gwmpas y tŷ, ond mae ganddo un uchelgais. Ei uchelgais fawr yw cael comisiwn i adeiladu dreser Gymreig gyfoes. Felly pwy sy' awydd un? Mae'n rhaid bod y cynllun yn ei ben yn barod, felly beth amdani?



*Esiampl o gadair garu gelfydd gyfforddus*

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn

### Medi 2018

#### Diogelwch y ffordd yn Nhaliesin

Mae'r adolygiad gan Gyngor Ceredigion i'r problemau parcio, llinellau melyn a chyflymdra yn dal i fynd ymlaen. Yn dilyn y cyfarfod agored a gafwyd ddiwedd mis Gorffennaf, deallir fod y Cyngor Sir wedi cael nifer o ymatebion i'w cynlluniau/strategau gwella ffyrdd diweddar.

#### Cae Chwarae

Bellach, mae'r Cyngor Sir wedi cytuno, gall y Cyngor Cymuned rentu cae chwarae'r ysgol gynt (tennis court) am bris bach yn flynyddol.

#### Materion Ffyrdd

Mae nifer o geir yn dal i fynd i lawr yr un ffordd anghywir wrth ymyl y Wildfowler – marciau ac arwyddion ffordd ar restr y Cyngor i'w wneud.

#### Cofeb Rhyfel

Wedi cael pris ar gyfer ei adnewyddu. Pawb yn hapus i hyn gael ei wneud.

#### Gwefan y Cyngor Cymuned

Mae angen ail edrych ar y wefan yn fuan.

BD

STORFA CANOLBARTH CYMRU

**MID WALES STORAGE**

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocs a bubblewrap ar lein  
[www.boxshopsupplies.co.uk](http://www.boxshopsupplies.co.uk)

Ffon: 01654 703592  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS  
[www.midwalesremovals.co.uk](http://www.midwalesremovals.co.uk)

INVESTORS | BUDDSODWYR  
IN PEOPLE | MEWN POBL



# CFFI Tal-y-Bont

Cynhaliwyd Diwrnod Maes ar y 6ed o Hydref yn Fferm Hafod, Ferwig a chynhaliwyd y gystadleuaeth Barnu Biff nos Fercher 3ydd o Hydref yn Fferm Tŷ-Gwyn, Ferwig. Bu cystadlu brwd drwy gydol y dydd gyda dros 200 o aelodau yn cymryd rhan. Dyfarnwyd Bedwyr Siencyn a William Jones yn fuddugol yng nghystadleuaeth Fferm Ffactor iau, a daeth Iestyn Davies yn ail yn y gystadleuaeth tractor a 'loader'. Cafodd Lleucu a Cadi gryn hwyl ar addurno coeden Nadolig hefyd – da iawn chi ferched! Mae'r aelodau bellach wedi cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid ar 1 a 3 Tachwedd a dyma hanes y llwyddiannau.

## LLWYFAN

Unawd Alaw Werin: 1af - Beca Williams

Parti Cerdd Dant: 1af

Stand-Yp: =3ydd - Oisín Lludd

Unawd 16 neu iau: 2il - Cadi Williams

Unawd offerynnol 26 neu iau: =3ydd - Gronw Downes

Canu emyn dan 26: 2il - Cadi Williams

Ensemble Lleisiol 26 neu iau: 1af - Cadi Williams, Cari Davies, Elain Tanat, Beca Williams

Unawd sioe gerdd neu ffilm 26 neu iau: 1af - Beca Williams

Parti unsain: 1af

## GWAITH CARTREF

Brawddeg ar y gair GLAMORGAN: 1af - Sara Jenkins

Llyfr trysorydd: 2il - Teleri Morgan

Yn ogystal â'r uchod roedd sawl aelod arall wedi cystadlu ar y llwyfan a'r gwaith cartref ac ar ddiwedd y dydd daeth y Clwb yn y 6ed safle gyda 57 o farciau. Diolch yn fawr iawn i Helen Medi, Siôn Pennant, Elen Pencwm a Geraint Jenkins am ein hyfforddi.

Ar ddiwedd y cystadlu daeth y Beirniaid a'r Trefnydd Sir ynghyd i ddewis 15 cystadleuaeth i fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Cymru. Bydd Beca gyda'i unawd o sioe gerdd neu ffilm a'r ensemble lleisiol yn cynrychioli Tal-y-bont a Cheredigion yn Eisteddfod CFFI Cymru ar 17 Tachwedd yn Y Bari. Edrychwn ymlaen!

*Glain Davies*



*Gronw Downes*



*Lleucu a Cadi*



## Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Daeth deg o wahanol ffermydd o Ogledd Ceredigion ynghyd i anfon eu hwŷn hyrddod i ffwrdd am y gaeaf, mewn arbrawf gyda Chymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion. Cafodd 60 o wŷn eu hanfon i ardal Eifionydd, i fferm Werddon, ger y Ffôr. Cafodd yr wŷn eu beirniadu cyn mynd, i ddewis yr oen mwyaf addawol. Cafodd oen Dei Nutting, Tyhen Henllys ei ddewis yn fuddugol, gyda wŷn Dafydd Jenkins, Tanrallt yn dod yn ail a thrydydd. Diolch i Gwmni 'Rogers & Taylor' unwaith eto am noddi'r Gymdeithas.

## Ysgol Sul Bethel

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch arbennig gan aelodau Ysgol Sul Bethel ar fore Sul yr 21ain o Hydref. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn edrych yn smart iawn yn eu crysau pêl-droed, a chafwyd cyflwyniad diddorol ganddynt am sut mae peli yn cael eu gwneud gan blant ym Mhakistan. Cafwyd dwy eitem gerddorol hyfryd a oedd yn estyn diolch am ddoniau a thalentau - unawd lleisiol gan Miri ac unawd ar y piano gan Efa. Ac ar ôl y gwasanaeth, roedd cyfle i bawb gymdeithasu a mwynhau paned a bisged.

# Galw ar Bobl Leol i Gefnogi



Yn 2020 bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Cheredigion am y tro cyntaf ers 1992 a bydd croeso mawr yn ei disgwyl. Yr oedd y brwdfrydded a welwyd gan bron i 400 yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd Fis Medi yn hynod gadarnhaol, a phobl o bob oed yn ei chefnogi'n gryf.

Ers hynny, sefydlwyd y pwyllgorau pwnc i gyd, ac y mae Pwyllgor y Gronfa Leol yn y broses o sefydlu pwyllgorau apêl ym mhob rhan o'r Sir i godi arian at yr apêl. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu myrdd o weithgareddau cymunedol i gyrraedd y nod o £330,000 a osodwyd yn darged.

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yw Elin Jones, ac mae hi eisoes yn edrych ymlaen, ac yn awyddus i'r paratodau gynnwys pobl o bob rhan o'r Sir, yn Eisteddfodwyr selog a phobl sydd erioed wedi ymwneud gyda'r wyl o'r blaen. Bydd swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod dros y misoedd nesaf, ynghyd â chodi arian ar gyfer y Gronfa Leol.

Wrth lansio'r ymgyrch, dywedodd, "Mae Apêl Eisteddfod 2020 eisoes wedi dechrau ar gyfer gwyl fydd yn adeiladau ar llwyddiannau diweddar yr

Eisteddfod. Mae'n braf gweld strydoedd ein trefi yn byrlymu gyda phobl frwdfrydig, ymroddedig sy'n llawn syniadau am y math o Eisteddfod yr hoffent ei weld yma yng Ngheredigion."

"Yn ogystal â mynychu'r amryw weithgareddau codi arian fydd yn digwydd ar draws y Sir, rydym yn annog unigolion i wneud ymrwymiad personol i'r apêl drwy gyfrannu arian yn fisol fel rhan o'r ymgyrch Cyfeillion Eisteddfod 20-20 (ugain punt am ugain mis i gefnogi Eisteddfod 2020). Drwy gyfrannu swm rheolaidd, gall unigolion wneud gwahaniaeth mawr i'r targed terfynol."

Mae gwybodaeth am sut i gyfrannu a chefnogi ar gael ar wefan yr Eisteddfod, sydd yn cynnwys cynnig gwobr neu gyfraniad unigol, bychan neu fawr, unrhyw bryd rhwng nawr a'r Eisteddfod yn 2020. Mae croeso hefyd i chi gysylltu â'r Swyddfa ar 0845 40 90 400 neu anfon e-bost [gwyb@eisteddfod.org.uk](mailto:gwyb@eisteddfod.org.uk).

"Yn bendant, bydd Eisteddfod 2020 yn gyfle gwych i ddod â phobl at ei gilydd yn ein cymunedau, beth bynnag eu cysylltiad â'r Gymraeg. Dyma gyfle unigryw a chyffrous i ddangos pwysigrwydd y Gymraeg yn y Sir a thu hwnt, a rydym yn barod ac yn edrych ymlaen at yr her a'r gwaith dros y ddwy flynedd nesaf."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol 2020 ar gyrion Tref Tregaron o 1-8 Awst. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein [www.eisteddfod.cymru](http://www.eisteddfod.cymru).



# Heio 'Na!

**Dyma'r cyntaf o gyfres achlysurol lle byddwn yn holi hanes amryw o bobl a fagwyd yn nalgylch y papur ond sydd bellach yn byw mewn ardaloedd eraill o Gymru neu thu hwnt. Byddwn yn eu holi am ychydig o'u hatgofion o'u cyfnod yn tyfu fyny yn Nhal-y-bont a'r ardal ac yn cael ychydig o'u hanes ers symud i ffwrdd. A'r cynta yw Siona Laverty sydd bellach yn byw yn yr Almaen.**

Cefais fy ngeni a fy magu yn Nhal-y-bont ac mae gen i lawer o atgofion melyn o dyfu fyny yn y pentref. Mae'n bentref cymdeithasol iawn ac roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol yn llawer o hwyl. Rwy'n cofio bod yn "Madog" yn panto Nadolig yr ysgol a chystadlu ar ran yr ysgol yng ngweithgareddau'r Urdd. Roeddwn yn mwynhau cystadlu yn Sioe Tal-y-bont, yn enwedig y "Gardd fach ar blât". Un flwyddyn bŵm yn cystadlu yn y rasys cŵn sy'n cael eu cynnal ar ddiwedd y sioe. Roedd gennym gi defaid ar y pryd o'r enw Ffin, yn anffodus nid dilyn ei drwyn wnaeth Ffin ond rhedeg i ffwrdd i'r cyfeiriad arall. Roedd gen i gymaint o gywilydd wnes i byth ceisio eto!

Rwyf hefyd yn cofio cynnal sioe hud yn y Sioe Dalent gyda fy chwaer Ciara, a'n ffrindiau Molly a Stella Foster. Roedd Ciara, y gwningen, yn ymddangos o "top hat" anferth; a'r dewin yn gwthio cleddau i mewn i Molly a oedd yn cuddio mewn boc. Roedd y carnifal blynyddol hefyd yn hwyl ac roeddwn yn mwynhau paratoi gwisgoedd ar gyfer y cystadlu. Yr uchafbwynt i fi oedd ennill y thema "Teitlau Caneuon". Gwisgais ddillad mam-gu a'r teitl oedd "When I'm 64".

Cefais fy addysg uwchradd ym Mhenweddig ac ar ôl gorffen es i weithio i Gaffi Cletwr yn Nhrer Ddôl er mwyn arbed arian ar gyfer teithio o gwmpas y byd. Ar ôl dod nôl dechreuais yn y Brifysgol yn Llundain. Tipyn o wahaniaeth ar ôl Tal-y-bont!

Roedd Llundain yn lle braf am dair mlynedd ond nid oeddwn am



fyw yno ar ôl gorffen y cwrs. Penderfynais gymryd "blwyddyn allan" eto ond tro hyn i weithio nid i deithio. Cefais swydd fel gofalwraig ym Mhlas Cwm Cynfelin. Roedd y profiad yn un gwerthfawr iawn gan i mi benderfynu gwneud cwrs meddygaeth o ganlyniad. Cyn i mi ddechrau'r cwrs yng Nghaeredin treuliais yr haf cynt yn gweithio ym Mhrifysgol Calgary. Yno cwrddais â Simon; ni feddyliais y byddem yn priodi saith mlynedd yn ddiweddarach!

Ar ôl graddio cefais swydd yn Ysbyty Addenbrooke a llwyddodd Simon i gael swydd yng Nghaergrawnt hefyd. A dyna ble buom yn byw am 2 flynedd cyn priodi haf diwethaf a chynnal y wled ar bwys Bedd Taliesin.

Ers hynny rydym wedi symud i fyw i Munich ble cafodd Ianto, sydd bron yn flwydd, ei eni. Mae Munich yn dref hyfryd o ryw 1.4 miliwn ond ar hyn o bryd mae'n teimlo fel tref o fwy gan fod yr Oktoberfest ymlaen. Rydym yn byw yn eithaf agos at faes yr Oktoberfest ac yn mwynhau gweld pobl mewn gwisg draddodiadol, sef y *dirndl* a'r *lederhosen*. Mae'r Almaenwyr yn ymfalchïo yn eu cwrw, ac yn Munich maent yn dathlu hyn ddwywaith y flwyddyn; yn ystod y Starkbierfest cyn Pasg, a'r Oktoberfest. Maent hyd yn oed yn ystyried bod cwrw heb alcohol yn "sports drink!"

Un stereoteip a gadarnhawyd ar ôl symud i'r Almaen oedd pa mor fiwrocataidd yw'r Almaenwyr – maent yn hoff iawn o waith papur! Hefyd ges i sioc i ddarganfod bod hwfro a thorri'r lawnt ar ddydd Sul yn *verboten*! Un o'r pethau gorau am fyw yn Munich yw'r ffaith bod yr Alpau yn agos iawn. Gan fod ni'n dau yn hoffi cerdded rydym yn treulio sawl penwythnos yn cerdded yn y mynyddoedd. Ar ôl i'r cyfnod mamolaeth ddod i ben rwy'n bwriadu dechrau cwrs er mwyn gwella fy Almaeneg gyda'r nod o ddechrau gwaith y flwyddyn nesaf.

Nid wyf yn hiraethu am y tywydd yn Nhal-y-bont ond rwy'n hoff iawn o ddod 'nôl, yn enwedig ar gyfer y Sioe. Yr unig drueni yw nad oes maes awyr mwy cyfleus!



## Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)  
Ffôn: 01970 832278

## Y LLEW GWYN

### Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00  
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50  
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)  
Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
[garethwhitelion@outlook.com](mailto:garethwhitelion@outlook.com)



## Colofn Ben Lake



Fedwrn ni ddim cynllunio a gweithio tuag at ddyfodol llewyrchus i gymunedau cefn gwlad Ceredigion heb sicrhau bod ein diwydiant amaeth ni'n gynaliadwy, yn hyfyw ac yn ffynnu.

Yn anffodus, mae gan y diwydiant ffermio yng Nghymru'r potensial i fod un o'r diwydiannau gaiff ei heffeithio fwyaf yn sgil Brexit. Yn ogystal â'r ansicrwydd parhaus a ddaw o gyfeiriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar 10 Gorffennaf eleni lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad 'Brexit a'n Tir'. Mae'r ymgynghoriad hwn yn argymhell diddymu Taliadau Uniongyrchol, sy'n ffurfio tua 80% o incwm ffermydd Cymru, a'u disodli gan un cynllun amgylcheddol 'nwyddau cyhoeddus'.

Gallai'r cynigion hyn weld y newid mwyaf i amaethyddiaeth yng Nghymru a'n cymunedau ffermio ers yr Ail Ryfel Byd. Gallai ansicrwydd Brexit gael ei ddwysáu gan gynigion byrbwyll Llywodraeth Cymru fyddai ond yn ychwanegu at bryder ac ansicrwydd ffermwyr. Mae perygl gwirioneddol y gallai'r argymhellion danseilio gallu rhai ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd a bod yn geidwaid tir.

Mae'r Alban eisoes wedi penderfynu cynnal taliadau sylfaenol i ffermwyr ac mae'n debyg y bydd Gogledd Iwerddon yn dod i'r un penderfyniad. Golyga hyn y bydd y gefnogaeth ariannol i ffermwyr nid dim ond yn amrywio o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ond o fewn y Deyrnas Unedig hefyd, a gallai hynny roi ffermwyr Cymru dan anfantais sylweddol. Ni ddylid anwybyddu chwaith goblygiadau hir dymor yr argymhellion hyn ar hyfywedd ein cymunedau gwledig, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.

Bydd Plaid Cymru bob amser yn cefnogi ac yn dadlau o blaid ffermwyr Cymru, o blaid cynnyrch o Gymru ac o blaid cefn gwlad. Mae ffermio a chefn gwlad yn hanfodol i'n gweledigaeth i Gymru. Ar yr adeg hon o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd economaidd, mae Elin Jones a minnau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i rewi'r taliadau uniongyrchol am o leiaf pum mlynedd er mwyn galluogi ffermwyr i gynllunio'n iawn ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r undebau amaeth am eu cydweithrediad agos dros yr wythnosau diwethaf. Bydd Elin Jones a minnau yn parhau i gynnal sgysiaau a thrafodaethau gyda ffermwyr a'r diwydiant amaeth dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod llais y diwydiant i'w glywed yn glir yng Nghaerdydd ac yn San Steffan.

Ben Lake

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
m.rowlands1958@gmail.com



**Michael Rowlands**  
**Adeiladwr**

01970 832 732 • 07929 003 576

## Y Gair Olaf



Pan ofynnwyd i mi gyfrannu colofn 'Y Gair Olaf' ar gyfer rhifyn Tachwedd *Papur Pawb* meddyliais y byddai'n llawer gwell i'r golygydd ofyn i'r gwleidyddion sydd yng nghanol helyntion *Brexit*, gan eu bod i gyd yn mynnu cael y 'gair olaf' ar y mater. Ydy Teresa May am weld ei chynllun Chequers yn tra arlwyddiaethu (gyda *Brextra Time*, efallai), neu a fydd Michel Barnier a Donald Tusk am ei wrthod yn llwyr? Beth ar ddiwedd y dydd fydd safbwynt terfynol Arlene Foster o'r DUP, sy'n cynnal mwyafrif Teresa, ond yn cwestiynnu ei hateb i gwestiwn anodd y ffin Wyddelig? Mae'r Albanwyr dan arweiniad Nicola Sturgeon hefyd am fynnu'r 'gair olaf' ar y mater, gan i'w gwlad bleidleisio'n gryf o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r sefyllfa yn aneglur yng Nghymru gan i ni bleidleisio i ddod allan, er mae'n ymddangos fod mwyafrif aelodau'r Cynulliad yn awyddus ein bod yn aros mewn er budd amlwg i'n heconomi a'n sector amaethyddol. Ond os na chawn ddêl gyda'r Undeb bydd Jacob Rees-Mogg, Boris Johnson a'u tebyg hwythau wedi cael y 'gair olaf' gan ddianc heb gytuned â sicrhau *Brexit* caled a glân. Os daw hi i hynny, efallai mai gyda'r Senedd yn Llundain y bydd y 'gair olaf', ac os na fedrant gytuno, mae'n bosib y cawn 'bleidlais y bobl' am yr eilwaith. Ond ai hwnnw fydd y 'gair olaf' mewn gwirionedd? Hyd yn oed gyda phleidlais *Remain* yr eildro, tybed a fydd yr Undeb Ewropeaidd yn awyddus i'n derbyn yn ôl!

Richard E. Huws

**BRO 360**

LLE AR Y WE

Yn dilyn y newyddion cyffrous am lansiad prosiect newydd **Bro360**, mae **Golwg** yn awyddus i benodi:

### Ysgogydd x 2

Mae'r ddwy swydd hon yn allweddol i lwyddiant y cynllun - yn gweithio'n bennaf ym mhrif ardaloedd ffocws y prosiect, un yn Arfon a'r llall yn Aberystwyth a Gogledd Ceredigion.

#### Y SWYDD

- Sbarduno gweithgarwch yn yr ardaloedd dan sylw.
- Hyrwyddo'r prosiect yn y cymunedau lleol a thu hwnt.
- Ysgogi unigolion, mudiadau a grwpiau o bobl o bob math i gymryd rhan ac i gyfrannu at y gwefannau newydd.
- Meithrin perthynas â'r cymunedau a chyfranogwyr.
- Creu a chyfrannu deunydd addas i'r gwefannau bro.
- Cyfrannu syniadau at ddatblygu'r prosiect.

#### Y PERSON:

- Gallu i drin pobl yn effeithiol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf.
- Diddordeb yn y We a'r cyfryngau cymdeithasol a phrofiad o'u defnyddio.
- Syniadau ffresh ac unigryw.
- Trefnus.
- Brwdfrydig a phenderfynol.

**Lleoliad y Swyddi:** Un yn swyddfa Golwg yng Nghaernarfon ac un yn Aberystwyth/Llanbed

**Cyflog:** £20,000 i £23,000

**Oriau gwaith:** Llawn amser, 40 awr yr wythnos

**Dyddiad Cau i wneud cais:** 23 Tachwedd

**Anfonwch lythyr cais, CV llawn ac enwau canolwyr.**

**Mwy o fanylion:** [owainschiavone@golwg.com](mailto:owainschiavone@golwg.com) / 01570 423 529

Cefnogi i'rwyd  
Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru  
Rhaglen Ddiwyddiaeth Gwledig 2014 - 2020

Supported through the  
Welsh Government Rural Communities  
Rural Development Programme 2014 - 2020

Statws Arianweddol Rwyd i'r  
Gwledig Llywodraeth Cymru  
Rhaglen Ddiwyddiaeth Gwledig 2014 - 2020

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# CHWARAEON



## Chwaraewyr y Tymor

Yn ystod hanner amser gêm Aberystwyth a TNS yn Uwchgynghrair Cymru ar nos Wener 2 Tachwedd cynhaliwyd seremoni Chwaraewyr y Tymor Cynghrair Ieuencid Aberystwyth a'r cylch 2017-18. Cyflwynwyd tlysau i'r buddugwyr ac yn eu plith roedd Brandan Kelly, Maes y deri, Tal-y-bont, a oedd yn fuddugol yn yr oedran dan 12 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr Brandon a gobeithio i ti fwynhau'r noson a buddugoliaeth glodwiw Aber yn erbyn y pencampwyr.

argraffu da  
am bris da



**yLolfa**

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

**yBlac**

01970 832 555  
[croeso@yblac.co.uk](mailto:croeso@yblac.co.uk)

## Dafydd Iwan yn Swyno'r Sesiwn



Daeth Dafydd Iwan draw i Sesiwn Nos Wener ar Hydref 26ain i gynnal noson o "Straeon a Chaneuon o'r Chwedegau a'r Saithdegau" yn y Llew Du. Wrth ei gyflwyno, dywedodd Robat Gruffudd mai dyma'r unig dro yn hanes y Sesiwn y gallai ef, na neb arall, honni iddo rannu cell mewn carchar gyda'r perfformiwr. Digwyddodd hynny ar ddiwedd "Achos yr Wyth" sef yr achos gynllwynio arwyddion ffyrdd yn Llys y Goron, Abertawe yn 1971. Soniodd Dafydd am yr achos — a "siom" y diffnyddion o beidio cael eu dedfrydu i flynyddoedd dan glo — ac am sawl digwyddiad arall o'r cyfnod gan weu'r caneuon i mewn i'w atgofion.

Gweithiodd y cyfuniad o'r cerddorol a'r llafar yn berffaith gan fod sylwadau Dafydd mor onest a chraff ac yn aml yn ddoniol iawn. Chwarddodd pawb wrth iddo sôn amdano'i hun yn cynnal sbot wythnosol ar raglen newyddion Y Dydd yn y chwedegau. Roedd angen iddo ganu cân newydd bob tro ac weithiau ni fyddai wedi gorffen sgrifennu'r geiriau tan wedi i'r rhaglen ddechrau. Gan na fyddai'n gwybod y geiriau newydd, byddai'n dibynnu ar gael rhywun i ddal y geiriau i fyny iddo, ac un tro fe ddaliodd y person y geiriau i fyny pen-i-waered.

Roedd llond y lle yn y Llew Du yn mwynhau atgofion difyr Dafydd a'i ganeuon o'r degawdau a fu. Wrth gwrs roedd y noson gymaint â hynny'n fwy cyfoethog a diddorol gan i Dafydd gyfrannu cymaint i fywyd Cymru nid yn unig fel canwr ond fel ymgyrchydd, gwleidydd, a gŵr busnes.

R.G.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol  
Cwmni Cymunedol Cletwr Cyf  
yn Cletwr

am 4y.p. Dydd Sul 25ain o Dachwedd

**Croeso cynnes  
i bawb.**

Ceir agenda a ffurflenni enwebu ar gyfer y Bwrdd  
ar y wefan, Facebook ac yn y siop.

[www.cletwr.com](http://www.cletwr.com)

**Cletwr**

01970 832113

## CWRDD TEULU

i lansiò Apêl Madagascar

**BETHEL, TAL-Y-BONT**

10yb – Tachwedd 18

DEWCH YN LLU

Casgliad arbennig – Paned a chacen

